SP Energy Networks

# Strategaeth Ynni Cymunedol



# Mae sector ynni cymunedol cryf a chadarn yn hanfodol er mwyn sicrhau trawsnewid cyfiawn a diwallu anghenion er mwyn cyrraedd targedau Sero Net y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU. Mae'r cyd-destun ynni yn newid yn gyflym ac un o'r prif ffactorau yw twf cymunedau a defnyddwyr domestig gweithredol sy'n cael eu grymuso gan fesuryddion clyfar, technoleg,storio, a chyfuno, a bydd pob un o'r rhain yn lleihau'r rhwystrau sy'n atal defnyddwyr rhag cyfranogi yn y system ynni.



**Fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO) rydym yn gyfrifol am gyflenwi trydan o'r grid cenedlaethol i gartrefi a busnesau. Yn SP Energy Networks, rydym yn chwarae rhan ganolog mewn ynni cymunedol drwy hwyluso prosiectau ynni adnewyddadwy lleol a chefnogi cynlluniau effeithlonrwydd ynni.**

Mae grwpiau cymunedol ar y blaen o safbwynt creu atebion ynni arloesol. Maent yn rhoi anogaeth ac yn rhannu gwersi gwerthfawr wrth inni symud i dechnolegau pŵer a gwresogi carbon isel, clyfar, a system ynni fwy datganoledig. Mae'r sefydliadau hyn, y mae eu gwreiddiau'n ddwfn yn eu cymunedau, yn chwarae rhan hollbwysig yn y trawsnewid i ynni adnewyddadwy. Mae eu presenoldeb lleol yn eu galluogi i arwain prosiectau ynni cymunedol yn effeithiol, gan gael effaith arwyddocaol ar y sector ynni cymunedol ehangach. Drwy ddefnyddio eu sefyllfa unigryw, gallant ysgwyddo rolau allweddol a chynnil sy'n wahanol i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Rydym wedi creu'r strategaeth hon i rymuso cymunedau, gwella gwytnwch y sefyllfa ynni, a chyfrannu at y trawsnewid i ddyfodol carbon isel. Ein nod yw rhoi'r adnoddau a'r gefnogaeth y mae ar gymunedau eu hangen er mwyn iddynt allu datblygu atebion ynni cynaliadwy, gan helpu i gyrraedd targedau sero net yn y pen draw a meithrin cymunedau cryfach sy'n fwy annibynnol o ran ynni.

Mae ein Strategaeth Ynni Cymunedol yn amlinellu sut rydym yn bwriadu adeiladu ar ein cymorth presennol i weithio'n agosach ac yn fwy strategol gyda grwpiau cymunedol, ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid, i roi sylw i rai o'r prif rwystrau sy'n llesteirio twf atebion ynni cymunedol hanfodol.

I hwyluso hyn, rydym wedi creu tîm ynni cymunedol pwrpasol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cymorth rydym yn ei gynnig i'n cymunedau, a'r gwaith o helpu i sefydlu atebion ynni cymunedol, wedi'u sefydlu yn ein gweithgareddau cynllunio a chyflawni. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y strategaeth hon yn dal i fod yn addas at y diben ac yn dal i gyd-fynd ag anghenion ein cymunedau.

Er mwyn creu'r strategaeth hon, rydym wedi cysylltu â chyrff sy'n cynrychioli prosiectau ynni cymunedol ar draws ardal ein trwydded: Community Energy England, Community Energy Scotland, ac Ynni Cymunedol Cymru, i ddeall y problemau a'r heriau unigryw sy'n wynebu'r sector ar draws ardaloedd ein trwydded.

Rydym hefyd wedi ymgynghori ac ymgysylltu'n helaeth ar-lein â chwsmeriaid, rhanddeiliaid, a chyrff ynni cymunedol ar lawr gwlad ledled y DU, gan gynnwys y cwsmeriaid hynny sy'n byw mewn amgylchiadau bregus.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda sefydliadau lleol sydd eisoes wedi'u sefydlu a rhoi cefnogaeth at y pwrpas er mwyn annog a hwyluso rhagor o brosiectau ynni adnewyddadwy ar draws ardaloedd ein trwydded. Credwn y bydd y dull hwn yn grymuso ein cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid a'n cymunedau i sicrhau trawsnewid cyfiawn i bawb.

**Nicola Connelly**
Prif Swyddog Gweithredol,
SP Energy Networks

# Cynnwys




## Cyflwyniad Td 04

Amdanom ni Td 04
Beth yw Ynni Cymunedol? Td 04
Pam ei bod yn bwysig cefnogi Ynni Cymunedol? Td 04
Ynni Cymunedol yn ardaloedd ein trwydded Td 04

## Cysylltu â'n rhanddeiliaid Td 05

Beth rydyn ni wedi'i ddysgu gan ein rhanddeiliaid Td 06
Beth sy'n Rhwystro Twf Ynni Cymunedol Td 06
Cefnogi ein rhanddeiliaid Td 07

## Edrych tua'r dyfodol Td 08

Ein cyd-weledigaeth Td 08
Ein hymrwymiadau a'n gweithredoedd Td 09
Sut byddwn yn mesur llwyddiant Td 13

## Cysylltwch â ni Td 12

## Rhestr Termau Td 13


* Mae'r holl dermau y cyfeirir atynt i'w gweld yn yr adran rhestr termau ar ddiwedd y ddogfen hon.

# Cyflwyniad

## Amdanom ni

Gweithredwr Rhwydwaith Trawsyrru a Dosbarthu yw SP Energy Networks; mae'n rhedeg tri busnes rhwydwaith trydan rheoledig yn y Deyrnas Unedig ac yn berchen arnynt: SP Transmission plc (SPT), SP Distribution plc (SPD) and SP Manweb plc (SPM). Rydyn ni'n cludo pŵer ar ran cwmnïau cyflenwi drwy rwydwaith o geblau dan ddaear a llinellau pŵer uwchben i gartrefi a busnesau ar draws Canolbarth a De'r Alban, Gogledd a Chanolbarth Cymru, Glannau Mersi, Swydd Gaer a Gogledd Swydd Amwythig. Ni hefyd yw'r unig weithredwr rhwydwaith sy'n gwasanaethu cymunedau ar draws y tair llywodraeth, pob un â'i thargedau Sero Net ei hun (2045 yn yr Alban a 2050 yng Nghymru a Lloegr). yn yr Alban a 2050 yng Nghymru a Lloegr).

## Beth yw Ynni Cymunedol?

Mae ynni cymunedol yn cyfeirio at ddarparu ynni adnewyddadwy dan arweiniad y gymuned, prosiectau cyflenwi ynni a thrafnidiaeth carbon isel sy'n lleihau'r galw, p'un a ydynt yn eiddo llwyr i gymunedau neu drwy bartneriaeth â phartneriaid masnachol neu sector cyhoeddus a/neu'n cael eu rheoli ganddynt.[2]

Gall prosiectau ynni cymunedol gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy neu wres yn lleol, prynu ynni ar y cyd neu fasnachu ynni rhwng cymheiriaid, gwelliannau effeithlonrwydd ynni neu gynlluniau trafnidiaeth gymunedol carbon isel a gwefru cerbydau trydan. Gyda rheolaeth ddemocrataidd, cyd-fanteision a chyfranogiad gweithredol wrth ei wraidd, mae ynni cymunedol yn cefnogi'r newidiadau mawr mewn diwylliant a seilwaith sy'n angenrheidiol i leihau effaith newid hinsawdd a gwella diogelwch y cyflenwad ynni lleol.

[2]https://communityenergyengland.org/pages/what-is-community-energy
[3]https://wpieconomics.com/publications/future-community-energy/

## Pam ei bod yn bwysig cefnogi Ynni Cymunedol?

Er mwyn helpu'r DU i gyrraedd ei thargedau Sero Net, bydd angen i filiynau o unigolion a chymunedau lleol newid y ffordd maen nhw'n defnyddio trydan yn eu bywyd bob dydd. Er mwyn defnyddio ynni mor effeithlon â phosibl bydd rhaid defnyddio dyfeisiau mwy 'clyfar' yn ein cartrefi, defnyddio mwy ar drafnidiaeth trydan boed hynny'n gerbydau personol neu'n gerbydau a rennir, a chynhyrchu trydan i'w ddefnyddio ar y safle neu i'w fasnachu'n lleol. Fe allai cyfradd a chyflymder y newid ymddygiad a'r defnydd technolegol sy'n ofynnol yn hawdd arwain at fod mwy o ddefnyddwyr yn cael eu hystyried fel rhai sy'n byw mewn amgylchiadau bregus, a bod mwy o gwsmeriaid yn cael eu gadael ar ôl.

Mae llawer o enghreifftiau gwych i'w cael o grwpiau cymunedol yn ymateb i anghenion rhwydweithiau lleol ac yn sefydlu modelau busnes ynni cymunedol a dulliau o gyfranogi'n lleol y gellir eu hefelychu neu eu haddasu i fodloni anghenion amrywiol cymunedau ac amodau rhwydweithiau lleol ar draws Prydain. Yn ôl The Future of Community Energy[3], sef adroddiad ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gennym, fe allai ynni cymunedol ddarparu cymaint â 2.5m tunnell o arbedion allyriadau carbon y flwyddyn a phweru 2.2m o gartrefi ag ynni adnewyddadwy erbyn 2030.

Er bod llawer o fanteision i ynni cymunedol, gwyddom o'n gwaith ymgysylltu fod y sector hefyd yn wynebu rhai heriau allweddol a dyna pam ein bod wedi ymrwymo i gefnogi a hwyluso ei dwf; bydd hyn, yn ein barn ni, yn helpu i leihau biliau cwsmeriaid a lleihau $CO_2$ ar draws ardaloedd ein trwydded.

Erbyn 2030, gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy, fe allai Ynni Cymunedol bweru

**2.2m o gartrefi**

## Ynni Cymunedol yn ardaloedd ein trwydded

**10,284**

o aelodau o Grwpiau Ynni Cymunedol


**19.3 MW**

o gapasiti trydan adnewyddadwy dan berchnogaeth y gymuned

**70**

o grwpiau cymunedol sy'n cynnwys:

- Elusen
- Cymdeithas Buddion Cymunedol
- Cwmni Buddiannau Cymunedol
- Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant
- Cwmni Cydweithredol
- Anghorfforedig
- Arall



# ysylltu â'n rhanddeiliaid

Mae gennym hanes hir o ddarparu cymorth a gweithio mewn partneriaeth â chymunedau ac rydym yn cydnabod bod cysylltu'n effeithiol â'n rhanddeiliaid ynni yn y gymuned yn ein helpu i sicrhau canlyniadau gwell i'n cwsmeriaid. Rydym wedi ymgynghori â'n rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn rhoi mesurau ar waith a fydd yn darparu'r cymorth maen nhw ei eisiau a'i angen.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid ac wedi:

- Comisiynu'r adroddiad annibynnol gan WPI Economics 'The Future of Community Energy'[4]
- Cynhyrchu Canllaw Ynni Cymunedol pwrpasol wedi'i anelu at grwpiau cymunedol sy'n awyddus i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy
- Noddi'r ymchwil Ynni Cymunedol blynyddol ar Gyflwr y Sector[5]
- Llofnodi'r Bil Trydan Lleol yn 2021[6]
- Datblygu ein hadnodd Cymunedau Di-garbon ar-lein, rhad ac am ddim[7]
- Cynnal 5 digwyddiad i randdeiliaid sy'n canolbwyntio ar ynni cymunedol dan y teitl 'Cymunedau Clyfar'

Rydyn ni'n gweithio'n galed gyda'r Cyrff Cynrychioli Ynni Cymunedol sy'n gweithredu yn ardaloedd ein trwydded.

Community Energy England · Community Energy Scotland – Empowering Communities · Ynni Cymunedol Cymru Community Energy Wales




[4]https://www.spenergynetworks.co.uk/pages/wpi_report_the_future_of_community_energy.aspx
[5]https://communityenergyengland.org/files/document/960/1720710752_CommunityEnergyStateoftheSector2024UKOverview.pdf
[6]https://static1.squarespace.com/static/5ff35be80400f408900d4cf9/t/63d002939ff9f527a8971c29/1674576531187/Local+Electricity+Bill+2022-23+session.pdf
[7]https://www.spenergynetworks.co.uk/pages/zero_carbon_community_tools.aspx

## Beth rydym ni wedi'i ddysgu gan ein

Yn 2024, fe wnaethom ofyn i'r cyrff ynni cymunedol cynrychioladol - Community Energy England, Community Energy Scotland ac Ynni Cymunedol Cymru a grwpiau cymunedol llawr gwlad dethol yn ardaloedd ein trwydded ledled y DU, adolygu a bwydo i'r rhwystrau sy'n effeithio ar y sector, a hefyd adolygu'r ymrwymiadau gwreiddiol a gyhoeddwyd fel rhan o'n Cynllun Busnes RIIO-ED2 ym mis Tachwedd 2021.

Roeddem eisiau adnabod y bylchau a chasglu gwybodaeth ychwanegol am ddymuniadau, anghenion a dewisiadau grwpiau cymunedol yn ogystal ag am unrhyw rwystrau newydd i'r sector. Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom gynnal cyfres o sesiynau rhyngweithio dwyochrog gyda rhanddeiliaid allweddol a dauarolwg ar-lein ar wahân i gasglu adborth manylach a mireinio a chryfhau ein hymrwymiadau.

Fe wnaeth ein harolwg rhanddeiliaid diweddaraf, a gynhaliwyd yn 2024, gasglu adborth gan 4 grŵp cymunedol a 27 o Gynghorau Ynni Cymunedol. Dywedodd 84% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod y broses cysylltiadau'n ddryslyd ac y byddent yn hoffi gweld canllaw 'sut i gysylltu'.

**Mae'r canlynol yn feysydd a welsom lle byddai rhagor o gymorth yn ddefnyddiol:**

- Roedd **55%** eisiau help gyda'r Broses Cysylltiadau
- Roedd **55%** eisiau help i ddeall y technolegau oedd ar gael
- Roedd **26%** o'r ymatebwyr eisiau help i ddeall y broses o newid Gweithredwyr Systemau Dosbarthu/Cysylltiadau Hyblyg.

**Esiamplau o sylwadau gan ein rhanddeiliaid:**

"Dylai SPEN, y llywodraeth a grwpiau cymunedol fod yn canolbwyntio ar bartneriaethau strategol."

"Hoffwn weld SPEN fel **addysgwr,** o safbwynt egluro'r capasiti cyflenwi lleol sydd ar gael. Galluogi swyddogaeth addysgol i dynnu sylw at yr hyn sydd ar gael ac at gapasiti'r grid a helpu cysylltiadau i fwrw ymlaen yn weddol gyflym."

**Sgoriodd ein rhanddeiliaid pa mor ddefnyddiol fyddai'r wybodaeth ganlynol ar ein gwefan:**

| | |
|---|---|
| Cylchlythyr | 13% |
| Astudiaethau Achos | 19% |
| Cymorthfeydd i Gwsmeriaid | 26% |
| Cwestiynau Cyffredin | 26% |
| Canllawiau a Dogfennau | 52% |
| Gwybodaeth Gysylltu | 63% |

## Beth sy'n Rhwystro Twf Ynni Cymunedol

Er bod nifer o fanteision i ynni cymunedol, gwyddom o'n gwaith cysylltu fod y rhain yn dibynnu ar oresgyn heriau mawr. Er enghraifft, mae ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod amser ac adnoddau ariannol yn aml yn brin gan grwpiau cymunedol. Gwyddom hefyd mai prin yw'r wybodaeth ar draws grwpiau cymunedol am y newidiadau sy'n dod i'r system ynni a'r posibiliadau ar gyfer ynni cymunedol o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Ychydig iawn o hyder i sefydlu prosiectau newydd sydd gan eu haelodau cymunedol yn aml, a hynny oherwydd y broses ddatblygu dechnegol iawn a'r diffyg data i allu asesu ymarferoldeb prosiectau yn effeithiol.



**Y prif rwystrau a nododd ein rhanddeiliaid**

- Cyfyngiadau grid/cysylltu â'r grid
- Cael gafael ar y cysylltiadau cywir yn y DNO
- Diffyg cymorth ariannol (cyfalaf a refeniw)
- Proses ddatblygu dechnegol iawn
- Mae'n anodd sefydlu modelau ariannol hyfyw
- Diffyg Hyder a gallu i weithredu yn y gymuned
- Diffyg gwybodaeth am yr hyn sy'n bosibl ar rwydweithiau lleol
- Mae'n anodd asesu pa mor hyfyw ydy cysylltiadau na chânt eu gwarantu
- Mae'r wybodaeth am sut all DNOs helpu grwpiau cymunedol yn brin
- Dim data monitro'r rhwydwaith ar gael na gwybodaeth ragweithiol am y lleoliadau grid gorau ar gyfer cyflenwad lleol
- Anhawster dod o hyd i'r lleoliadau grid gorau ar gyfer datblygu gwasanaethau hyblygrwydd ar lefel dosbarthu
- Lefel isel o ddealltwriaeth/gallu mewn grwpiau cymunedol o'r angen a'r posibiliadau sy'n gysylltiedig â datblygu Gweithredwyr Systemau Dosbarthu a 'hyblygrwydd'

**Byddwn yn helpu cymunedau i oresgyn y rhwystrau sy'n bodoli a'u helpu i ffynnu yn y cyd-destun polisi newidiol drwy:**

- Helpu grwpiau cymunedol i ddeall cyd-destun anniben ac amrywiol polisïau, cyllid, datblygu prosiectau, a'r adnoddau a'r cyngor technegol sydd ar gael i gymunedau
- Gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau sydd â diddordeb lleol yn natblygiad rhwydweithiau ynni lleol
- Ystyried ynni cymunedol mewn ffordd gyfannol a hefyd rôl grwpiau cymunedol fel gweithredwyr allweddol yn eu hardaloedd lleol gan ddarparu ystod eang o fanteision, uniongyrchol ac anuniongyrchol.

## Cefnogi ein rhanddeiliaid

**Fe wnaethoch hefyd ddweud wrthym y dylem ganolbwyntio ein cefnogaeth ar y meysydd allweddol hyn:**

### Cyrff cydweithredol cymunedol a phartneriaethau strategol ar sawl lefel

**Eich sylwadau:**
Dylai SPEN weithio gyda'r Llywodraeth a gwahanol ddiwydiannau i osgoi "siarad mewn gwactod."

Dylai SPEN gysylltu ag awdurdodau lleol, sefydliadau ynni cymunedol, cyfleustodau eraill, a chyrff fel Cyngor ar Bopeth a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni; a gallai rhai ohonynt fod mewn sefyllfa well i gysylltu â chymunedau.

**Ein hymateb**

- Adolygu ein gweithgareddau presennol, canfyddiadau ein hymchwil diweddaraf i ynni cymunedol a'r adborth gan ein rhanddeiliad.
- Lansio ein Hwb Cymunedau Di-garbon ar-lein, rhad ac am ddim.
- Cydweithio â chymunedau a sefydliadau cymorth dibynadwy i hwyluso uchelgeisiau ynni cymunedol yn gyflym ac yn strategol.
- Cefnogi'r sector ynni cymunedol ehangach drwy ddod yn aelod o'r sefydliadau sy'n cynrychioli ynni cymunedol a noddi eu digwyddiadau.
- Cyfranogi mewn gweithgor traws-DNO i rannu'r arferion gorau.

### Cyngor a chymorth

**Eich sylwadau:**
Cytunai 92% o'r rhanddeiliaid a arolygwyd y dylai gweithredwyr rhwydwaith fel SPEN chwarae eu rhan i gefnogi ynni cymunedol gan fod ganddynt y wybodaeth, yr adnoddau, a'r seilwaith i gefnogi'r sector.

Dylai SPEN roi addysg a chyngor i'r cyhoedd, gan gynnwys darparu enghreifftiau o brosiectau ynni cymunedol llwyddiannus er mwyn i'r naill allu dysgu oddi wrth y llall.

**Ein hymateb**

- Adolygu ein gweithgareddau presennol, canfyddiadau ein hymchwil diweddaraf i ynni cymunedol a'r adborth gan ein rhanddeiliad.
- Creu tîm ynni cymunedol pwrpasol.
- Lansio ein Hwb Cymunedau Di-garbon ar-lein, rhad ac am ddim.
- Rydym yn datblygu catalog o weithdai ynni cymunedol sy'n canolbwyntio ar gefnogi ein rhanddeiliaid ynni cymunedol.

### Cynyddu ymwybyddiaeth

**Eich sylwadau:**
Dylai SPEN fod yn fwy uchelgeisiol yn ei ddarpariaeth addysg drwy helpu i roi sylw i'r bwlch sgiliau mewn grwpiau cymunedol yn ogystal â'r bwlch gwybodaeth.

Roedd y rhanddeiliaid am weld rhaglen addysg ar ynni lleol sydd "wedi'i gwreiddio'n ddwfn".

**Ein hymateb**

- Defnyddio ein rôl arweiniol yn y system ynni, a gweithio gyda sefydliadau cefnogi lleol, i benderfynu sut i ledaenu ymwybyddiaeth o gyfleoedd a manteision ynni cymunedol yn gyflym ac yn gost-effeithiol.
- Dechrau'r gwaith o greu rhaglen cynyddu ymwybyddiaeth i'w lansio yn 2024.
- Noddi'r gost o gyhoeddi adroddiad Ynni Cymunedol: Cyflwr y Sector 2024.

### Darparu cyllid i helpu i wneud prosiectau'n hyfyw

**Eich sylwadau:**
Cyllid clir, hyblyg gyda phroses ymgeisio syml, gan roi ystyriaeth i gynlluniau ynni lleol, ynghyd â dichonoldeb a chyfalaf.

Dylai SPEN fod yn fwy uchelgeisiol drwy gadw cyllid ar gyfer prosiectau cymunedol a chyllid ar gyfer prosiectau mwy ar wahân a chreu model ynni cymunedol arferol.

**Ein hymateb**

- Dan ein Cynllun Busnes ED2 (2023 i 2028) ein nod oedd darparu cymorth ariannol penodol i helpu i gefnogi a grymuso ein rhanddeiliaid ynni cymunedol, fodd bynnag, ni chefnogodd Ofgem y cais hwn.
- Mewn ymateb i hyn, rydym nawr yn creu cronfa ddata gyllid y gall grwpiau cymunedol ei defnyddio. Yn hon ceir manylion Cynlluniau Budd Cymunedol, yn ogystal â Chronfa Sero Net SP Transmission, sydd ar gael yn yr Alban.

# Ein cyd-weledigaeth

Ein nod yw cefnogi twf y sector ynni cymunedol yn ardaloedd ein trwydded. rydym ni eisiau cefnogi cymunedau arloesol a sefydliadau cefnogi cymunedau sydd wedi gweithio yn ddiflino dros y degawd diwethaf i ddarparu atebion rhwydweithiau lleol a modelau busnes ynni cymunedol arloesol.

Rydyn ni'n cydnabod yr angen i weithio gyda grwpiau cymunedol i feithrin ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, cydsyniad a phartneriaethau cydweithredol er mwyn gallu cyflwyno atebion ynni lleol yn llwyddiannus.

## Targedau Ynni Cymunedol y DU.

Mae Llywodraeth y DU, ynghyd â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban, wedi sefydlu targedau uchelgeisiol ar gyfer cynlluniau ynni cymunedol lleol.

### Yr Alban

Mae gan Lywodraeth yr Alban nod o fod yn gallu cynhyrchu 2GW (2,000MW) o ynni cymunedol a lleol yn yr Alban erbyn 2030.



Mae gan 2,000MW:
y potensial i bweru hyd at

**2 filiwn o gartrefi.**

### Lloegr

Fe allai Cynllun Pŵer Lleol y llywodraeth sydd newydd ei hethol gynnig grantiau a benthyciadau llog isel ar gyfer prosiectau ynni glân cymunedol. Dros bum mlynedd, ei nod yw cynhyrchu 8GW o ynni solar a gwynt ar y tir.



Mae gan 8,000MW:
y potensial i bweru hyd at

**8 miliwn o gartrefi.**

### Cymru

Nod Llywodraeth Cymru yw ehangu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy 100MW a mwy drwy gyrff cyhoeddus a mentrau cymunedol erbyn 2026, gyda'r nod o gyrraedd y targed 1GW o gapasiti cynhyrchu lleol erbyn 2030.



Mae gan 100MW:
y potensial i bweru hyd at

**100,000 o gartrefi.**

# Ein hymrwymiadau a'n gweithredoedd

## Fel rhan o'n cynllun busnes ED2, rydym wedi sefydlu ymrwymiadau i ddarparu cefnogaeth i ynni cymunedol .

Mae'r ymrwymiadau hyn, a luniwyd drwy gysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, yn amlinellu ein camau gweithredu strategol i ennyn twf mewn ynni cymunedol. Cafodd ein cynllun gweithredu ei greu i ddangos ein hamcanion penodol i fodloni anghenion ein rhanddeiliaid, gan sicrhau bod ein cefnogaeth i ynni cymunedol yn effeithiol ac yn ymatebol.

Mae'r ymrwymiadau yr ydym wedi'u sefydlu yn rhoi sylw i nifer o'r rhwystrau y mae ein cymunedau wedi dweud wrthym eu bod wedi'u hwynebu, fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod na yw'r holl rwystrau yn ymwneud â'n rôl ni fel gweithredwr rhwydwaith. Er enghraifft, ni chawn ni wneud penderfyniadau ar dariffau ynni lleol.

Byddwn, fodd bynnag, yn ceisio gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ac yn cyfranogi mewn trafodaethau gydag Ofgem, llunwyr polisïau a llunwyr penderfyniadau allweddol eraill. Rydym hefyd yn awyddus i weithio gyda Gweithredwyr Rhwydweithiau Ynni eraill a'r Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni i ddatblygu dull mwy safonol o gefnogi grwpiau cymunedol ledled y DU ac rydym yn gweithio'n agos â grŵp DNO newydd.

Nod yr ymrwymiadau hyn yw sicrhau bod ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid, gan gynnwys cydgasglwyr a datblygwyr a fydd angen cefnogi grwpiau cymunedol, yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd lleol, a chynyddu nifer y prosiectau ynni cymunedol ar draws ardaloedd ein trwydded.

Rhennir ein hymrwymiadau yn dri maes:

1. Cefnogaeth
2. Ymwybyddiaeth
3. Gwelliant Parhaus

# 1. Cefnogaeth: Gweithredu

Bydd ein tîm ynni cymunedol ymroddedig sydd newydd ei sefydlu yn cynnig sawl math o gymorth i'n rhanddeiliaid ynni cymunedol. Drwy gynnig cyngor technegol, trafod y dewisiadau a chyfeirio at sefydliadau cymorth diduedd bydd ein tîm yn cefnogi grwpiau lleol sydd angen cymorth gyda'n proses gysylltu.

### Beth mae hyn yn ei olygu?

Dywedodd ein rhanddeiliaid wrthym fod y broses o sefydlu cynlluniau ynni cymunedol yn gallu bod yn dechnegol ac yn gymhleth. Maent wedi dweud sut maen nhw'n teimlo y gellid goresgyn y rhwystrau sy'n atal mwy o brosiectau cymunedol:

- Gwell dealltwriaeth o gyfyngiadau'r grid.
- Mwy o gymorth i asesu hyfywedd cysylltiadau.
- Cefnogaeth i ddod o hyd i'r lleoliadau grid gorau ar gyfer datblygu gwasanaethau hyblygrwydd lefel dosbarthu.
- Paratoi mwy o wybodaeth am y lleoliadau grid gorau ar gyfer y cyflenwad lleol.
- Mwy o ymgysylltu uniongyrchol â Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu neu wybodaeth am sut gall Gweithredwyr Rhwydweithiau helpu grwpiau cymunedol.

### Er mwyn gwneud hyn, fe wnawn y canlynol:

Sefydlu tîm penodol i gefnogi prosiectau ynni cymunedol a grwpiau cymunedol yn ardaloedd ein trwydded. Bydd y tîm hwn yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog, gan dywys grwpiau cymunedol drwy'r broses, gan eu cysylltu gyda meysydd perthnasol ein busnes yn ôl yr angen.

Creu adran benodol ar ein gwefan, a fydd wedi'i theilwra i grwpiau cymunedol. Bydd yr adran hon yn cynnwys pheirianweithiau cefnogi i rymuso cymunedau ac arddangos mentrau sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned.

Creu blwch post pwrpasol ar gyfer grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allweddol, sy'n gwasanaethu fel sianel er mwyn i'n cymunedau gysylltu â ni.

Cydweithio ymhellach ar draws ein meysydd busnes i gael gwell dealltwriaeth o'r heriau ymarferol sy'n wynebu grwpiau cymunedol a mynd ati i ddysgu am ddatblygiadau yn y sector i gefnogi'r grwpiau hyn.

Creu canllawiau i'r dechnoleg a'r prosesau a fydd wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau cymunedol, mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid. Bydd y canllawiau hyn ar gael yn rhwydd ar unrhyw gam o'u siwrnai i gefnogi a rhoi gwybodaeth i grwpiau cymunedol.

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n grwpiau cymunedol am yr adnoddau sydd ar gael i hunanwasanaethu a'r holl adnoddau sydd ar gael i gefnogi rhanddeiliaid.

Sefydlu rhaglen gynhwysfawr o weithdai yn seiliedig ar y meysydd testun penodol a welwyd drwy adborth rhanddeiliaid. Bydd y dull wedi'i dargedu hwn yn sicrhau bod ein gweithdai yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i grwpiau cymunedol.

Rhoi cefnogaeth benodol i grwpiau cymunedol sy'n ceisio datblygu syniadau arloesol a phrosiectau Ynni Cymunedol.



# 2. Ymwybyddiaeth:
## Pwyntiau Gweithredu

Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cefnogi lleol i gynnal ymgyrchoedd mawr i gynyddu ymwybyddiaeth o ynni cymunedol a gweithgareddau addysg yn y maes i feithrin gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r newidiadau a ddaw i'r sector ynni a sut gall unigolion a'u cymunedau gymryd rhan a chael budd ohonynt. Byddwn yn adolygu ein ffyrdd o gysylltu, gan gynnwys pwy/beth yw'r ffordd orau o ddarparu gwybodaeth a dal i fod yn hyblyg ac yn arloesol yn ein dull gweithredu.

### Beth mae hyn yn ei olygu?

Byddwn yn helpu cymunedau i ddeall y cyfleoedd sydd i'w cael gyda thechnoleg carbon isel, cynlluniau ynni lleol a hyblygrwydd y rhwydwaith er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth leol ac annog grwpiau cymunedol i gyfranogi ac elwa. Mae'r ymrwymiad hwn yn cefnogi llawer o'r gwelliannau sy'n ofynnol, yn ôl ymateb y rhanddeiliaid.
Yn benodol, y nod yw rhoi sylw i'r canlynol:

- Mwy o hyder a gallu i gynnal cynlluniau ynni cymunedol.
- Mwy o allu i recriwtio cyfranogwyr i gymryd rhan mewn prosiectau ynni cymunedol.
- Gwell dealltwriaeth o'r angen i ddatblygu DSO a'r posibiliadau sy'n gysylltiedig â hynny – gan gynnwys cyfleoedd hyblygrwydd.

### Er mwyn gwneud hyn, fe wnawn y canlynol:

Cydweithio â'r cyrff sy'n cynrychioli ynni cymunedol a sefydliadau cefnogi perthnasol eraill i gynyddu ymwybyddiaeth am ein sefydliad a sut allwn ni helpu grwpiau cymunedol. Drwy ddefnyddio eu llwyfannau, rydym yn bwriadu cysylltu'n effeithiol â grwpiau cymunedol a hwyluso cyfathrebu yn y sector.

Cydweithio â'r cyrff a'r sefydliadau hyn i'n helpu i gysylltu â grwpiau cymunedol newydd a grwpiau sydd eisoes wedi'u sefydlu nad ydynt yn ymwybodol o beth sy'n digwydd yn y diwydiant, ac er mwyn iddynt gael y wybodaeth ddiweddaraf am hynny.

Creu cynllun cysylltu cynhwysol sy'n defnyddio nifer o sianeli cyfathrebu i gysylltu â grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allweddol. Bydd y sianeli hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i e-bost, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, a gweithdai.

Hyrwyddo gweithdai addysgol wedi'u teilwra drwy gydweithio â'r cyrff sy'n cynrychioli ynni cymunedol sydd wedi'u teilwra i anghenion a diddordebau penodol y grwpiau lleol.

Hysbysu grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allweddol pan fyddwn yn ychwanegu gwybodaeth ddiweddar i adrannau perthnasol o'n gwefan.

Chwarae rhan amlwg mewn cynadleddau allanol i gysylltu â'n rhanddeiliaid. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rwydweithio, rhannu gwybodaeth a chydweithio. Drwy gyfrwng ein presenoldeb yn y cynadleddau hyn byddwn yn ceisio meithrin perthnasoedd ystyrlon a gwella ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol.



# 3. Gwelliant Parhaus: Pwyntiau Gweithredu

Byddwn yn cyhoeddi Strategaeth Ynni Cymunedol i ddangos yn glir sut y byddwn yn gwreiddio dealltwriaeth o ynni cymunedol ar draws ein busnes i gefnogi grwpiau cymunedol a'u prosiectau ynni cymunedol ar draws ardaloedd ein trwydded. Bydd ein strategaeth yn cael ei hadolygu'n annibynnol bob blwyddyn i wneud yn siŵr ein bod yn dysgu wrth fynd ymlaen ac yn addasu i newidiadau yn yr amgylchedd allanol.

## Beth mae hyn yn ei olygu?

Bydd ein tîm ynni cymunedol yn rhoi blaenoriaeth i grwpiau cymunedol ac atebion ynni cymunedol yn ein gwaith cynllunio a chyflawni. Drwy wneud hyn, rydym yn sicrhau bod eu hadborth yn siapio datblygiad ein strategaeth, gan ein harwain ar y camau nesaf i'w cymryd.

Bydd ein tîm ynni cymunedol yn mesur effaith y strategaeth hon ac yn adrodd ar yr effaith honno drwy ddefnyddio data o adroddiad Cyflwr y Sector. Bydd y data hwn yn hanfodol ar gyfer datblygu ein strategaeth yn barhaus, gan sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y gymuned ac yn addasu i amgylchiadau newidiol.

## Er mwyn gwneud hyn, fe wnawn y canlynol:

Noddi'r adroddiad Cyflwr y Sector a fydd yn ein galluogi i gael cipolwg ar yr heriau penodol y mae grwpiau cymunedol yn eu hwynebu. Bydd y ddealltwriaeth hon yn llywio ac yn gwella ein strategaeth.

Defnyddio data adroddiad Rhanbarthol Cyflwr y Sector yn llawn i ymchwilio'n ddyfnach i'r tueddiadau ystadegol yn ardaloedd ein trwydded ac addasu unrhyw ddatblygiadau i'r strategaeth. Bydd y wybodaeth hon a fydd wedi'i theilwra yn amhrisiadwy i sicrhau bod ein strategaethau i'r dyfodol yn cyd-fynd ag anghenion y sector ynni cymunedol.

Dadansoddi'n barhaus ein cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion a'r ymrwymiadau a amlinellir yn y strategaeth hon.

Drwy asesu effaith ein cynlluniau yn rheolaidd, byddwn yn cael gwybodaeth werthfawr i lywio diweddariadau i'r strategaeth yn y dyfodol.

Cynnal arolwg blynyddol i gael gwybodaeth am anghenion newidiol ein grwpiau cymunedol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ganfod gofynion newidiol ein rhanddeiliaid er mwyn i ni allu gwella ein strategaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod ein strategaeth yn dal i gefnogi'r sector Ynni Cymunedol mewn ffordd sy'n ymatebol ac yn effeithiol.

Dal i weithio gyda sefydliadau cefnogi lleol i ganfod, i ganfod dulliau arloesol o hyrwyddo cyfleoedd a manteision ynni cymunedol.

Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ein hadnoddau addysgol ar ynni cymunedol a'n hallbynnau.



## Sut byddwn yn mesur llwyddiant

Byddwn yn adolygu ein heffaith bob blwyddyn i addasu ein dull gweithredu. Byddwn ni'n gweithio gyda'r cyrff sy'n cynrychioli ynni cymunedol i rannu gwybodaeth am ein gweithgareddau a'r canlyniadau ar gyfer ardaloedd ein trwydded. Bydd ein heffaith yn cael ei hadolygu'n annibynnol gan y cyrff ynni cymunedol mewn adroddiad Ynni Cymunedol a gyhoeddir yn flynyddol; bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys manylion am hyd a lled ein gweithgareddau ynni cymunedol a'r hyn rydym wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ar draws dwy ardal ein trwydded.

**Mae'r data a gasglwyd o'r adroddiad Ynni Cymunedol: Cyflwr y Sector yn cynnwys metrigau a fydd yn ein galluogi i fonitro ac asesu sut mae ein strategaeth yn cael ei chyflawni, megis:**

- Nifer y prosiectau ynni cymunedol newydd
- Cyrhaeddiad ein gweithgaredd codi ymwybyddiaeth ac addysgu
- Arbedion $CO_2$
- Arbedion ar filiau i ddefnyddwyr

**Byddwn hefyd yn monitro ac yn adrodd ar effaith ein hymrwymiadau ynni cymunedol gan ddefnyddio'r metrigau canlynol:**

- Arolygon o foddhad rhanddeiliaid
- Gwerthuso astudiaeth achos
- Adolygiad blynyddol annibynnol o hynt y strategaeth Ynni Cymunedol



## Cysylltu â ni

Os ydych ch'n sefydlu prosiect ynni lleol neu gymunedol, cysylltwch â ni i drafod eich cynlluniau. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw adborth sydd gennych ar y strategaeth hon.

**Ynni Cymunedol**
Communityenergy@spenergynetworks.co.uk

**Ymholiadau a Cheisiadau Cysylltu**
gettingconnected@scottishpower.com

### Cael y wybodaeth ddiweddaraf:

Cofrestrwch fel rhanddeiliad ac fe gewch ddiweddariadau rheolaidd a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgaredd ynni cymunedol yma:

Cofrestrwch fel Rhanddeiliad
Neu ewch i'n Gwefan Ynni Cymunedol

# Rhestr termau

**Adroddiad Cyflwr y Sector:** Adolygiad cynhwysfawr o ynni cymunedol yn y DU sy'n cydweithio ag Ynni Cymunedol Cymru a Community Energy Scotland i ddarparu data hanfodol i sefydliadau ynni cymunedol, rhanddeiliaid, a llunwyr polisïau. Mae'r adroddiad yn darparu i bobl yn y sector a thu hwnt ddata allweddol, gan ddangos graddfa ac effaith prosiectau ynni cymunedol. Gall llunwyr polisi ddefnyddio'r wybodaeth hon i greu polisïau cefnogol ar gyfer datblygu ynni cymunedol.

**Anghorfforedig:** Mae 'corff anghorfforedig' yn sefydliad a grëir drwy gytundeb rhwng grŵp o bobl sy'n dod at ei gilydd am reswm ar wahân i wneud elw. Nid oes gan gyrff neu gymdeithasau anghorfforedig bersonoliaeth gyfreithiol ac felly ni chânt fod yn berchen ar dir yn eu rhinwedd eu hunain.

**Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC):** Yn debyg i fusnes ond gyda phwrpas cymdeithasol er budd y gymuned, gyda'r elw yn cael ei ail-fuddsoddi.

**Cwmni Cyfyngedig drwy Warant:** Strwythur busnes sydd ag atebolrwydd cyfyngedig ar gyfer aelodau, fe ellid defnyddio'r strwythur hwn ar gyfer ynni cymunedol ond mae'n llai cyffredin.

**Cwmni cydweithredol:** Busnes a reolir yn ddemocrataidd sy'n eiddo i'w aelodau ac sy'n cael ei redeg ganddynt. Mae Aelodau Cwmni cydweithredol yn rhannu perchnogaeth busnes neu sefydliad ac yn gwneud penderfyniadau ar y cyd gan sicrhau bod pawb yn cael dweud eu dweud.

**Cymdeithas Budd Cymunedol:** Ffurf gorfforaethol gyfreithiol sy'n rhoi budd i gymuned ehangach. Caiff ei rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ac mae ganddi strwythur aelodaeth gydweithredol sy'n glynu wrth yr egwyddor 'un aelod, un bleidlais'.

**Cyrff Angori Cymunedol:** Cyrff sy'n uchel eu parch yn y cymunedau, ac sydd dan reolaeth a pherchnogaeth y bobl leol. Maent yn cynrychioli buddiannau'r gymuned honno gerbron rhanddeiliaid allanol ac mae'n bosib eu bod hefyd yn berchen ar amrywiol asedau cymunedol (tir ac adeiladau) ac yn meddu ar y modd i gynhyrchu eu ffrwd incwm annibynnol eu hunain.

**Cyrff sy'n Cynrychioli Ynni Cymunedol:** Sefydliadau aelodaeth sydd â rhwydweithiau helaeth sy'n cynnig platfform er mwyn i grwpiau cymunedol gysylltu â'i gilydd a chefnogi a chyflymu'r trawsnewid i system ynni deg, carbon isel a chymunedol: yn benodol, Community Energy England, Community Energy Scotland ac Ynni Cymunedol Cymru.

**Cynlluniau ynni lleol:** Rhaglenni sy'n cynnig cymorth ariannol, fel grantiau neu fenthyciadau llog isel, i helpu grwpiau cymunedol i sefydlu a gweithredu prosiectau ynni cymunedol.

**Cysylltiad sydd ddim wedi'i Warantu:** Cysylltiad a allai gael ei gyfyngu gan amodau fel uchafswm allforio, neu gyfyngu ar allbwn o dan amodau penodol y rhwydwaith.Grwpiau Eraill: Ymysg yr enghreifftiau eraill o grwpiau cymunedol y mae cymdeithasau preswylwyr, partneriaethau awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau datblygu a mentrau cymdeithasol.

**Elusen:** Fel arfer yn canolbwyntio ar gefnogi ardal ddaearyddol, yn bennaf drwy hwyluso a chyfuno'r rhoddion a ddefnyddir i roi sylw i anghenion y gymuned a chefnogi mudiadau nid-er-elw.

**Grwpiau Cymunedol:** Wedi'u sefydlu gan bobl leol neu gymunedau buddiant sydd wedi gweld bod angen gweithgaredd neu wasanaeth penodol yn eu hardal; eu nod yn aml yw gwella iechyd cymdeithasol, lles a rhediad cyffredinol y gymuned.

**Grwpiau Ynni Cymunedol:** Sefydliadau lleol lle mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu, rheoli neu gynhyrchu budd i'w cymuned drwy arferion ynni cynaliadwy neu drwy ddefnyddio prosiectau ynni adnewyddadwy.

**Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO):** Y sefydliadau sy'n rheoli ac yn berchen ar y rhwydwaith dosbarthu trydan sy'n cysylltu cynhyrchwyr, cyflenwyr a defnyddwyr ynni.

**Gweithredwr System Ddosbarthu (DSO):** Yn ddibynnol ar y cyd-destun, mae'n golygu gweithredu'r system ddosbarthu, neu weithredwr y system ddosbarthu (y corff sy'n gyfrifol am weithredu'r system ddosbarthu).

**Hyblygrwydd:** Newid sut a phryd rydym yn defnyddio ac yn cynhyrchu ynni i sicrhau bod y pŵer sy'n cael ei gynhyrchu ac a ddarperir inni wastad yn cyd-fynd â faint rydym yn ei ddefnyddio. Gallu cwsmer i newid ei sefyllfa fewnforio/allforio drwy ddull mae'n gallu ei reoli mewn ymateb i signal allanol. Gyda'r ymdrech i drydaneiddio gwres a thrafnidiaeth, bydd gallu defnyddio'r galw a'r cynhyrchiant yn hyblyg yn helpu i leihau faint o gapasiti ychwanegol sy'n ofynnol yn y rhwydwaith, cadw cydbwysedd yn y system a rhoi sefydlogrwydd iddi - gall hyn oll helpu i leihau biliau trydan defnyddwyr.

**RIIO-T2:** Y dull o reoli prisiau ar gyfer y rhwydweithiau trawsyrru trydan foltedd uchel a'r rhwydweithiau trosglwyddo nwy pwysedd uchel sy'n trawsyrru ynni ar draws Prydain o'r man lle caiff ei gynhyrchu.

**SPD:** Byrfodd o ScottishPower Distribution, sy'n is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr SP Energy Networks ac sy'n gyfrifol am ddosbarthu trydan yng nghanol a de'r Alban (33kV ac is).

**SPM:** Byrfodd o ScottishPower Manweb, sy'n is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr SP Energy Networks ac sy'n gyfrifol am ddosbarthu trydan yng Ngogledd Cymru ac yng Nglannau Mersi, Swydd Gaer a Gogledd Swydd Amwythig yn Lloegr (132kV ac is).

**SPT:** Byrfodd o ScottishPower Transmission plc, sy'n is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr SP Energy Networks. Rydym yn gyfrifol am drosglwyddo trydan yng nghanol a de'r Alban.

**Technoleg carbon isel:** Technoleg sy'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'i chymharu â thanwyddau ffosil traddodiadol, a ddefnyddir i gynhyrchu ynni neu er mwyn defnyddio llai o ynni.

SP Energy Networks
Community Energy Strategy

spenergynetworks.co.uk